

## Rheolwr Prosiect – Llywodraethu a Newid Gweithredol

### Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person

---

#### Amdanom Ni

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976 a dyma'r unig theatr gynhyrchu sydd ar ôl yn y DU sydd dal yn eiddo ar hyn o bryd i awdurdod lleol. Mae'r berthynas unigryw hon gyda Chyngor Sir y Fflint yn cynnig cryfderau ond hefyd heriau sylweddol i'r ddau barti, ac wrth i weithrediadau a gweledigaeth y theatr ar gyfer y dyfodol gael eu mireinio yn awr, mae'n gynyddol bwysig ymchwilio i sut rydym yn creu model llywodraethu a gweithredu newydd. Model sy'n galluogi i'r theatr ffynnu yn y dyfodol, yn gwasanaethu cymunedau Sir y Fflint ac yn manteisio i'r eithaf ar yr effeithlonrwydd busnes sydd ar gael i ymddiriedolaeth elusennol annibynnol ac is-gwmnïau masnachu cysylltiedig.

Mae Cabinet Cyngor Sir y Fflint a Bwrdd Llywodraethwyr presennol Theatr Clwyd, gyda chefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru, wedi cytuno y dylai gwaith manwl gael ei wneud yn awr i gyflwyno model annibynnol ochr yn ochr ag aildatblygiad cyfalaf mawr y theatr a'r campws celfyddydau.

Mae Theatr Clwyd yn cynnwys theatrau, sinema, orielau celf, caffï a bariau, ystafelloedd cynhadledd, gofod ymarfer a gweithdai cynhyrchu mewnol. Mae ein cynrychiadau diweddar yn cynnwys *Home, I'm Darling* a gipiodd wobr Olivier, *The Assassination Of Katie Hopkins* a sioe benodol i safle, *The Great Gatsby*. Rydym yn cynhyrchu mwy nag wyth sioe y flwyddyn - yn Saesneg yn bennaf, ond hefyd yn y Gymraeg – gan deithio rhai o'r sioeau hyn yng Nghymru ac yn y DU.

Cyllidir Theatr Clwyd drwy gefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir y Fflint, nawdd a gwerthiant tocynnau i'n cynulleidfa deyrngar, angerddol ac ymroddedig. Yn ystod 2018/2019, roedd y trosiant yn £6.9m o gymharu â throsiant y flwyddyn flaenorol o £5.2m. Bob blwyddyn cynhelir rhyw 2,115 o ddigwyddiadau unigol, a fynychir gan fwy na 200,000 o bobl gyda 50,000 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn digwyddiadau allgymorth. Ar hyn o bryd mae gan y theatr tua 90 o gyflogeion craidd a hefyd 350-400 o weithwyr dros dro a llawrydd pellach bob blwyddyn.

#### Crynodeb o'r Swydd

**Rheolwr Llinell:** Cyfarwyddwr Gweithredol, Theatr Clwyd  
**Yn Atebol I:** Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint a Chyfarwyddwr Gweithredol Theatr Clwyd  
**Yn Gyfrifol Am:** Arbenigwyr Llawrydd, Tîm Prosiect Llywodraethu a Newid Gweithredol  
**Perthnasoedd Allanol Allweddol:** Arbenigwyr Llawrydd, Cyngor Celfyddydau Cymru

## Disgrifiad Swydd

### **Rheolwr Prosiect – Llywodraethu a Newid Model Gweithredu**

#### **Pwrpas y Swydd**

Rheoli'r prosiect ac arwain y gwaith o gyflwyno Prosiect Model Cyflawni Amgen (MDA) Theatr Clwyd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus oddi mewn i'r cyllidebau a'r amserlenni y cytunwyd arnynt, ac yn unol â'r canlyniadau a ddymunir.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr Gweithredol Theatr Clwyd, Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint, a Thîm Prosiect y Model Llywodraethu a Gweithredu, gan sefydlu a chynnal perthnasoedd gwaith cadarn a dod â holl brif elfennau'r gwaith ynghyd, ochr yn ochr ag arbenigwyr mewnol ac allanol eraill, gan sicrhau bod pob agwedd ar y broses o newid y campws yn cael eu hadnabod, eu hystyried, eu datrys a'u cyflawni.

Gyda rôl allweddol mewn sicrhau ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid a rheolaeth effeithiol, rhaid i Reolwr y Prosiect weithio gydag aelodau presennol y Cabinet, aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr, Prif Swyddogion yng Nghyngor Sir y Fflint, uwch reolwyr yn Theatr Clwyd, ymddiriedolwyr newydd a chyfarwyddwyr a swyddogion allweddol ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Dîm y Prosiect.

#### **Cyfrifoldebau Allweddol**

#### **Cyffredinol**

- Bod yn rheolwr y rhaglen sy'n gyfrifol am sicrhau bod Prosiect Llywodraethu a Newid Theatr Clwyd, gan gynnwys ei holl ffrydiau gwaith, yn cael eu cyflawni.
- Datblygu cynlluniau cyflawni manwl (gan gynnwys cyllideb, amserlenni a chanlyniadau) ar gyfer y Prosiect. Rheoli'r amserlenni/cynlluniau cysylltiedig a'r elfennau i'w cyflawni ar gyfer pob ffrwd waith yn y broses newid.
- Rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Prif Weithredwr am gynnydd y prosiect.
- Tynnu sylw at gyfleoedd a nodi meysydd penodol o bryder/risg neu lithro ac argymell y gweithredu sydd ei angen i ddod â chyflawni prosiectau yn ôl yn unol â Chynlluniau Cyflawni'r Prosiect, fel sy'n briodol, yn unol ag anghenion y rhanddeiliaid perthnasol.
- Rhoi gwybod i aelodau tîm y Prosiect am bob ffrwd waith unigol sy'n ofynnol a sicrhau bod pob aelod o Grŵp y Prosiect yn ymwybodol o'u dyddiadau cau ac y cedwir at y rhain.
- Sicrhau bod pob gwaith yn cael ei gofnodi'n fanwl gywir a gyda manylder digonol.
- Sicrhau y bodlonir yr holl ofynion diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â phob agwedd ar y prosiect.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Prif Weithredwr i sicrhau bod yr holl rhanddeiliaid allweddol yn gwybod am benderfyniadau a dyddiadau cau allweddol.
- Llunio a chyflwyno adroddiadau a phapurau ar gyfer cyfarfodydd allweddol a chadeirio cyfarfodydd yn ôl yr angen.
- Trefnu cyfathrebu ar gyfer yr holl rhanddeiliaid allweddol gan sicrhau bod y cyfathrebu'n cael ei gynllunio'n dda ac yn cadw at yr amserlen.

- Recriwtio a rheoli unrhyw arbenigedd arbenigol annibynnol/allanol, yn ôl yr angen. Monitro ac adolygu eu gwerthusiadau opsiynau, eu data a'r gefnogaeth a roddir ganddynt er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.
- Sicrhau bod pob agwedd ar y broses newid yn cael eu hystyried a'u datrys.

## **Ffrydiau gwaith y prosiect:**

### **Ymrwymadau Ariannol, Cyllid ac yn y Dyfodol**

- Gweithio'n agos â Chyfarwyddwr Cyllid Theatr Clwyd a thimau cyllid mewnol Sir y Fflint i adnabod y systemau newydd gofynnol a'r newidiadau gweithredu/prosesau busnes eraill gofynnol, a'r gweithdrefnau neu'r manylion.
- Gweithio'n agos â'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Prif Weithredwr i'w cefnogi i sicrhau ymrwymiad i lefelau cyllido blynyddol gan Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Gweithio gyda thîm y prosiect i adnabod cronfeydd gwaith gofynnol ar gyfer y model newydd.
- Gweithio gyda thîm y prosiect i adnabod opsiynau a manylion am y cynlluniau pensiwn cyfredol ac yn y dyfodol ac i gyllido gwarchodaeth, ar gyfer yr ymddiriedolaeth newydd.
- Adnabod a recriwtio arbenigedd arbenigol yn ôl yr angen.

### **Eiddo ac Asedau**

- Gweithio'n agos â thîm y prosiect i adnabod yr holl fanylion sy'n berthnasol i brydlesu eiddo'r theatr i'r ymddiriedolaeth newydd a chyfrifoldebau'r Cyngor, fel Landlord.
- Goruchwylio adolygiad asedau a manylion am drosglwyddo asedau i'r ymddiriedolaeth newydd.
- Meddwl am yr holl fanylion cysylltiedig â'r ailddatblygiad cyfalaf ac ymwneud Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

### **Gwasanaethau Cefnogi**

- Nodi a chefnogi'r broses ar gyfer cael cytundeb i delerau'r ddarpariaeth o wasanaethau cefnogi gofynnol y Cyngor i'r ymddiriedolaeth newydd a'r is-gwmnïau.
- Nodi'r gwasanaethau cefnogi y gallai'r ymddiriedolaeth newydd ymgymryd â hwy/eu caffael yn allanol a rhoi cefnogaeth o ran sut gall y rhain gael eu cyflwyno a'u caffael/darparu adnoddau ar eu cyfer.

### **Cyfreithiol a Llywodraethu**

- Gweithio'n agos â'r Cyfarwyddwr Gweithredol i adnabod a chyflwyno yn ystod yr amser gorau yn ystod y prosiect y strwythur llywodraethu mwyaf effeithlon ac effeithiol ar gyfer ymddiriedolaeth elusennol a'r holl is-gwmnïau masnachu angenrheidiol.
- Adnabod a chyflwyno'r broses a'r amserlen ar gyfer ffurfio bwrdd cysgod newydd i weithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Llywodraethwyr presennol.
- Nodi sut gall y model newydd sicrhau'r manteision treth gorau posib.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Gweithredol gyda recriwtio a phenodi Ymddiriedolwyr a Chyfarwyddwyr.
- Adnabod, recriwtio a rheoli arbenigedd arbenigol a chyngor, yn ôl yr angen.

### **Telerau ac Amodau Cyflogaeth**

- Gweithio'n agos ag arweinydd Adnoddau Dynol Sir y Fflint fel rhan o Dîm y Prosiect i adnabod a chynllunio holl elfennau Adnoddau Dynol y ffrwd waith.
- Gyda'r arweinydd Adnoddau Dynol, nodi goblygiadau telerau ac amodau.

- Adnabod a chytuno ar fodel pensiwn teg a chynaliadwy.
- Cytuno ar a chyflwyno amserlen a phroses ar gyfer cyfathrebu â'r gweithlu, pleidlais a throsglwyddo TUPE.
- Adnabod, recriwtio a rheoli unrhyw gyngor arbenigol annibynnol, yn ôl yr angen.

## Arall

- Mynychu cyfarfodydd Bwrdd fel a phan fo angen. Pan fo angen, cyflwyno adroddiadau gyda diweddariadau ar gynnydd, gan nodi risgiau a phroblemau.
- Cynrychioli a hybu'n bositif Theatr Clwyd a Chyngor Sir y Fflint. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill fel y gofynnir yn rhesymol gan y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Prif Weithredwr.

## Manyleb y Person

### Hanfodol

- Profiad clir sylweddol, sgiliau amlwg a gwybodaeth arbenigol am y canlynol:
  - Rheoli Prosiect Cymhleth
  - Cyfathrebu gyda Byrddau ac uwch arweinwyr
  - Arweinyddiaeth sy'n Trawsnewid a Rheoli Newid yn y Gweithlu
- Addysg hyd at lefel gradd neu gyfatebol neu gymhwyster lefel uwch perthnasol gyda phrofiad clir ac arwyddocaol a gwybodaeth am reoli a gweithredu prosiectau sefydliadol/newid busnes cymhleth.
- Sgiliau rheoli amserlenni effeithiol, gan gynnwys gallu pennu a sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd.
- Gallu datblygu'r strategaeth a newid cynlluniau yn unol â hynny, i sicrhau cyflawni.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ysgrifenedig (e.e. adroddiadau), llafar (cyfarfodydd/cyflwyniadau).
- Sgiliau dadansoddi a datrys problemau cymhleth rhagorol a gallu i ddefnyddio meddwl hyblyg ac agored.
- Gallu rheoli tasgau niferus ar yr un pryd a blaenoriaethau'n gwrthdaro wrth weithio o dan bwysau ac oddi mewn i gyfyngiadau o ran adnoddau.
- Gallu clir i arwain, recriwtio a rheoli'n bositif.
- Profiad o reoli adnoddau'n effeithiol (pobl, cyllid, ac ati) a gallu i hwyluso gwaith ar draws ffiniau sefydliadol gan nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithredu, datrys problemau a gwelliannau.
- Gweithio i safonau uchel gydag ymrwymiad i ragoriaeth mewn gwaith.
- Sgiliau rhyngpersonol rhagorol, gallu meithrin perthnasoedd adeiladol gydag uwch arweinwyr, aelodau Bwrdd, aelodau tîm y prosiect a rhanddeiliaid.

### Dymunol

- Profiad o gyflwyno modelau cyflawni amgen neu newid sefydliadol.
- Profiad o sefydlu cwmnïau newydd, cyf. neu elusennol
- Gwybodaeth am systemau cyllid
- Gwybodaeth am amrywiadau treth perthnasol i wahanol lywodraethu
- Gwybodaeth am elfennau cyfreithiol Llywodraethu
- Cymraeg llafar ac ysgrifenedig
- Hoffter mawr o'r celfyddydau